

# Red Meat Development Programme

## Footrot or Shelly hoof

### - know the difference



The Red Meat Development Programme is delivered by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect.

A recent research project\* discovered that there is some confusion between footrot and shelly hoof. Around 14,000 sheep were screened for causes of lameness. The incidence of shelly hoof was similar to that of footrot and in some flocks it was a significant cause of lameness with up to half of sheep within flocks affected.



Shelly hoof pared away to reveal separated horn underneath (Courtesy of Agnes Winter)

### What's the difference?

**Footrot** is an **infectious** condition that starts as scald and if left untreated can under-run the sole of the hoof often causing pain, lameness and ultimately loss of production.

Shelly hoof (White Line Degeneration) occurs when the outer hoof wall becomes separated from the laminae that in turn connect to the bone inside the hoof. This can cause two problems:-

1. Separation occurs and forms pockets into which dirt and other material can enter, which can lead to infection.
2. A toe abscess can develop along the white line, pus forms and the animal becomes acutely lame.


Some animals suffer repeated attacks probably due to a permanent defect in the horn.

**Shelly hoof** in itself **is not** infectious and **is not** passed from one sheep to another.

\*J.Conington et al 2009. Breeding for resistance to footrot: Combining molecular and phenotypic approaches. DEFRA funded LINK project code LK0668

### Cause of the problem

There are several reasons for shelly hoof including the disintegration of cell membranes and impaired formation of the keratin proteins that link together for horn development.



Area of wall detached from the underlying laminae  
**White line degeneration (shelly hoof)**

### Treatment and Control

A correct diagnosis of this condition is important for effective control. Consult with your Veterinary advisor to identify the causes of lameness in your flock.

Incorrect diagnosis may explain why there are often reports that footrot vaccine 'makes no difference'.

Repeated footbathing for shelly hoof will not help the condition may make it more brittle and cause the condition to worsen.

Careful paring of the pockets to remove loose horn and remove the buildup of dirt.

If you have shelly hoof that has become infected consult with your veterinary advisor for the use of a suitable antibiotic.

Careful selection of breeding stock, avoiding those with clinical signs is advisable, as shelly hoof is moderately heritable.

**Further information on subsidised on-farm support and other related farm management options is available from the Red Meat Development Programme, delivered by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect on 01970 625050 or visit [hccmpw.org.uk](http://hccmpw.org.uk)**

# Rhaglen Datblygu Cig Coch Clwy'r traed neu 'Shelly hoof' - gwybod y gwahaniaeth



**Mae'r Rhaglen Datblygu Cig Coch yn cael ei ddarparu gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswilt Ffermio.**

Darganfu prosiect ymchwil diweddar\* fod yna rywffaint o ddryswch rhwng clwy'r traed a 'shelly hoof'. Cafodd tua 14,000 o ddefaid eu harchwilio i ddarganfod beth oedd yn achosi cloffni. Roedd mynychder 'shelly hoof' yn debyg i fynychder clwy'r traed ac mewn rhai diadelloedd roedd yn achos pwysig o gloffni, gyda hyd at hanner o ddefaid yn dioddef ohono.



*Carn cregynnog wedi'i bilio i ffwrdd i ddangos y corn sydd wedi gwahanu (Trwy garedigrwydd Agnes Winter)*

## Beth yw'r gwahaniaeth?

Mae **clwy'r traed yn gyflwr heintus** sy'n dechrau fel llid y traed. Os yw'n cael ei adael heb ei drin gall redeg o dan wadn y carn ac yn aml bydd yn achosi poen, cloffni a diffyg cynhyrchu llwyr yn y pen draw.

Mae 'shelly hoof' (Dirywiad Byw y Carn) yn digwydd pan fo haen allanol y carn yn gwahanu oddi wrth yr haenellau sy'n cysylltu â'r asgwrn y tu mewn i'r carn. Gall hyn achosi dwy broblem:-

1. Bydd gwahanu'n digwydd ac yn creu pocedi sy'n gallu dal baw a defnyddiau eraill, a gall arwain at haint.
2. Gall crawniad blaen y carn ddatblygu ar hyd byw y carn, mae crawn yn datblygu ac mae'r anifail yn mynd yn gloff iawn.


Bydd rhai anifeiliaid yn dioddef yn fynych, yn fwy na thebyg am fod nam parhaol yn y carn.

**Nid yw 'shelly hoof'** yn heintus ac felly **nid oes modd trosglwyddo'r cyflwr** o un ddafad i'r llall.

*\*J.Conington et al 2009. Breeding for resistance to footrot: Combining molecular and phenotypic approaches. DEFRA funded LINK project code LK0668*

## Achos y broblem

Mae yna sawl rheswm am 'shelly hoof', gan gynnwys datgymaliad pilenni celloedd a ffurfiant diffygiol o'r proteinau ceratin sy'n cysylltu â'i gilydd er mwyn ffurfio'r carn.



Darn o haen wedi dod yn rhydd o'r haenellau oddi tanodd  
**Dirywiad byw y carn ('shelly hoof')**

## Triniaeth a Rheolaeth

Mae diagnosis cywir o'r cyflwr hwn yn bwysig er mwyn ei reoli'n effeithiol. Mynnwch air â'ch milfeddyg er mwyn darganfod beth sy'n achosi cloffni yn eich diadell.

Gall diagnosis anghywir esbonio pam ceir adroddiadau yn aml nad yw brechlyn clwy'r traed yn gwneud unrhyw wahaniaeth.

Ni fydd defnyddio baddon traed yn fynych ar gyfer 'shelly hoof' yn helpu'r cyflwr. Gall wneud y carnau'n fwy brau a pheri i'r cyflwr waethygu.

Mae'n well naddu'r pocedi'n ofalus i gael gwared ar ddarnau o garn rhydd a baw sydd wedi crynhoi.

Os oes gennych achosion o 'shelly hoof' a gafodd eu heintio, mynnwch air â'ch milfeddyg ynglŷn â defnyddio gwrthfotig addas.

Dewiswch y stoc bridio'n ofalus, gan osgoi anifeiliaid ag arwyddion clinigol, oherwydd mae 'shelly hoof' yn etifeddol i raddau.

**Mae rhagor o wybodaeth am gymorth â chymhorthdal ar y fferm a dewisiadau rheoli fferm perthynol eraill ar gael gan y Rhaglen Datblygu Cig Coch, sy'n cael ei ddarparu gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswilt Ffermio, ar 01970 625050 neu ewch i [hccmpw.org.uk](http://hccmpw.org.uk)**